

**Cytundeb tai rhwng Llywodraeth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru
a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Bu'r sector tai yng Nghymru yn un o'r partneriaethau mwyaf llwyddiannus rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ar draws y Deyrnas Unedig mewn blynyddoedd diweddar. Anelwn barhau i gyflawni'r amcanion a rannwn - drwy greu a buddsoddi mewn cymunedau gan helpu i ddiwallu anghenion tai pobl, gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau a helpu i roi'r cychwyn gorau posibl i blant mewn bywyd. Mae cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy gwledig a threfol yn rhan hanfodol o hyn, yn yr un modd â chyflawni a chynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru. I gyflawni'r nodau a rannwn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol barhau i weithio mewn partneriaeth a sicrhau ein bod yn annog amgylchedd lle gallwn ffynnu a chyflenwi.

Fel sector, mae gennym ymrwymiad i weithredu'n effeithiol ac effeithlon, gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus a chynnig y gwerth gorau posibl i denantiaid a'n benthycwyr a chyllidwyr. Mae'r cytundeb yn gyfle i greu perthynas waith hyd yn oed gryfach sy'n gosod Cymru ar wahân fel gwlad sydd ag ymrwymiad i dai cymdeithasol.

Er nad yw'r Cytundeb yn ddogfen sy'n rhwymo'n gyfreithlon, mae'n dangos bwriad clir Llywodraeth Cymru, Cartrefi Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i greu perthynas waith sydd hyd yn oed yn gryfach.

Canlyniadau allweddol:

- Cyflenwi 13,500 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn y tymor hwn o'r Cynulliad sy'n cyfrannu at y targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy.
- Helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gostwng allyriadau carbon mewn cartrefi.
- Cydweithio i gefnogi arloesedd wrth ddatbygu a chyflenwi modelau newydd o dai fforddiadwy sy'n ateb y galw presennol a hefyd anghenion y dyfodol.
- Creu hyd at 12,500 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, yn cynnwys swyddi a phrentisiaethau a chynnig datblygu sgiliau a chefnogaeth i 25,000 o denantiaid.
- Parhau i liniaru effaith diwygiadau llesiant cyfredol a buddsoddi ymhellach i baratoi tenantiaid ar gyfer Credyd Cynhwysol.
- Cydweithio'n effeithlon gyda phartneriaid allweddol i atal digartrefedd a gostwng y defnydd o lety Gwely a Brechwast ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Cydweithio i greu cymunedau diogel a chydnerth a gwella help i'r rhai sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig.
- Cyfrannu at yr agenda iechyd ataliol drwy ddatblygu datrysiadau tai, cefnogaeth a gofal cymdeithasol.

Galluogwyr allweddol:

- Sicrhau fod y polisi rhent cynaliadwy yn ei le am y 5 mlynedd nesaf i ddileu'r ansicrwydd posibl am ddatblygu cartrefi newydd.
- Parhau â'r ymrwymiad i fuddsoddi mewn tai fforddiadwy drwy gyllid cyfalaf Grant Tai Cymdeithasol digonol, grant adfywio a chefnogaeth ar gyfer cynlluniau cyllid blaengar megis y Grant Cyllid Tai i alluogi cyflawni'r targed.
- Cefnogi datblygiad tai ar draws pob marchnad a math o ardal, yn cynnwys ardaloedd trefol a thrwy barhau cyllid ar gyfer Swyddogion Galluogi Tai Gwledig a chefnogaeth ar gyfer tai cydweithredol.
- Gweithio'n gyflym ac yn benderfynol i sicrhau cynnal annibyniaeth y sector cymdeithasau tai.
- Ymgysylltu gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ofyn am ddileu'r cap benthyca ar gyfer awdurdodau lleol.
- Cynyddu'r cap benthyca Cyfrif Refeniw Tai drwy sicrhau hyblygrwydd trefniadau ailddosbarthu a benthyca rhwng awdurdodau tai lleol.
- Rhoi blaenoriaeth i ddefnydd creadigol o dir a cheisio rhyddhau tir sy'n eiddo Llywodraeth Cymru ac eraill ar gyfer tai.
- Annog datblygiad cyflym safleoedd a ddyrennir mewn cynlluniau datblygu i atal bancio tir tymor hirach.
- Ysgogi cymaint o dai ychwanegol ag sy'n ymarferol drwy brosesau cynllunio a fabwysiadwyd ac ymchwilio dulliau cynlluniau i ddad-risgiiio safleoedd.
- Cyllid i atal digartrefedd a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol a gydag urddas.